Cyhoeddwyd Medi 2025

# Diweddaru ar gyfer Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth

**Lluniwyd y diweddaru hyn er mwyn diweddaru'r Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth canlynol i adlewyrchu newidiadau cyfreithiol a gyflwynwyd gan Ddeddf Yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.**

- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Angle (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Caerfarchell (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Aber-bach (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Maenorbŷr (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Trefdraeth a Pharrog Trefdraeth (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Portclew (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Porthgain (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Saundersfoot (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Solfach (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Tyddewi (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)
- Arfarniad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Tre-fin (mabwysiadwyd 26 Hydref 2022)

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2023**

Mae'r fframwaith statudol ar gyfer diogelu, dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth yng Nghymru wedi'i osod erbyn hyn gan Ddeddf Yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae Deddf 2023 yn atgyfnerthu ac yn moderneiddio'r gyfraith mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ac mae'n disodli ac yn diddymu darpariaethau a gafwyd gynt yn:

- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (fel yr oedd yn berthnasol i Gymru)

- Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (fel yr oedd yn berthnasol i Gymru)
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Mae’r Ddeddf hefyd yn ailddatgan darpariaethau a gafwyd gynt mewn Deddfau eraill sydd yn berthnasol i’r amgylchedd hanesyddol er mwyn gwella hygyrchedd ac eglurder. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ei phasio gan Senedd Cymru ar 28 Mawrth 2023 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Daeth y Ddeddf i rym yn llawn ar 4 Tachwedd 2024.

Ers 4 Tachwedd 2024, caiff yr holl bwerau a dyletswyddau sy’n ymwneud â dynodi, adolygu a rheoli ardaloedd cadwraeth yng Nghymru eu harfer dan Ran 4 Deddf Yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Y casgliad o reoliadau ategol i Ddeddf Yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ar hyn o bryd ydy:

- Rheoliadau Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adeiladau Crefyddol Esempt) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024

---

**Crynodeb o’r newidiadau**

Mae’r tabl isod yn diweddaru cyfeiriadau yn yr Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth fel a ganlyn:

| Adran yn y CCA/Arfarniad | Cyfeiriad Gwreiddiol | Cywiriad |
|---|---|---|
| **Atodiad A: Deddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cenedlaethol.** | Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diffinio o dan adrannau 91 (gan gyfeirio at adran 69) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 fel: “ardaloedd o ddiddordeb | Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Rhan 4, Adran 158 (1) yn diffinio ardaloedd cadwraeth fel “ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae’n ddymunol |

| | | |
|---|---|---|
| **Ardaloedd Cadwraeth** | pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad”. | diogelu neu wella eu cymeriad neu eu golwg”. |
| | Mae Adran 69 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio nodi’r ardaloedd hyn, ac yn unol ag Adran 71 y Ddeddf, llunio a chyhoeddi cynigion o dro i dro ar gyfer gwarchod a gwella’r ardaloedd hyn. | Mae Adran 158 Deddf Yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ddynodi ardaloedd cadwraeth. Mae Adran 159 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth. |
| | Mae Adran 72 y Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i roi ‘sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno’. | Mae Adran 160 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd gyffredinol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth, sef “wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, rhaid i berson roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno”. |
| **Caniatâd i Ddymchwel** | Mae Adran 74 y Ddeddf yn rheoli dymchwel mewn Ardaloedd Cadwraeth drwy ei gwneud yn ofynnol cael Cydsyniad Ardal Gadwraeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer dymchwel adeiladau o fewn Ardaloedd Cadwraeth gydag eithriadau penodol dan Adran 75 y Ddeddf. Nid yw’r gofyniad hwn yn berthnasol i Adeiladau Rhestredig, Henebion Rhestredig nac i ddymchwel adeiladau eglwysig sy’n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig, gan fod gwaith o’r fath yn destun rheolaeth dan ddeddfwriaeth ar wahân. | Mae Adran 161 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn rheoli dymchwel mewn Ardaloedd Cadwraeth drwy ei gwneud yn ofynnol cael Cydsyniad Ardal Gadwraeth gan yr Awdurdod Cynllunio ar gyfer dymchwel adeiladau o fewn Ardaloedd Cadwraeth gydag eithriadau penodol a osodir yn yr adran hon. Nid yw’r gofyniad hwn yn berthnasol i adeiladau rhestredig; fe ymdrinnir â’r rheiny yn hytrach dan Adran 88, ac ar gyfer Henebion Cofrestredig, gweler Adran 11. |

| | | |
|---|---|---|
| **Datganiadau o Effaith ar Dreftadaeth** | Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'n cyflwyno mesurau ar gyfer rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cadarnhaol, megis ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Datganiadau o Effaith ar Dreftadaeth gyda phob cais am Gydsyniad Adeilad Rhestredig ac am Gydsyniad Ardal Gadwraeth (gweler Adran 6). Mae'n gosod dyletswydd hefyd ar Lywodraeth Cymru i lunio Cofnod o'r Amgylchedd Hanesyddol a'i gadw'n gyfoes. | Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Datganiadau o Effaith ar Dreftadaeth gyda phob cais am Gydsyniad Adeilad Rhestredig (Adran 90 (4)). Mae Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 yn cynnwys mesurau ar gyfer rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cadarnhaol, megis ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Datganiadau o Effaith ar Dreftadaeth gyda phob cais am Gydsyniad Adeilad Rhestredig ac am Gydsyniad Ardal Gadwraeth. |
| **Polisi Cynllunio Cymru** | Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (11eg Rhifyn) yn cynnwys canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cydnabod Ardaloedd Cadwraeth fel asedau hanesyddol a'r angen i'r system gynllunio ddiogelu, cadw a gwella arwyddocâd asedau hanesyddol, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i'w lleoliadau. Pwysleisir yr angen i benderfyniadau fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith cynnig ar arwyddocâd ased hanesyddol. Mae'n egluro bod y gwaith o warchod, cadw a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol... wrth ddylunio cynigion newydd.<br><br>Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth ydy diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn | Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (12fed Rhifyn) yn cynnwys canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cydnabod Ardaloedd Cadwraeth fel asedau hanesyddol a'r angen i'r system gynllunio ddiogelu, cadw a gwella arwyddocâd asedau hanesyddol, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i'w lleoliadau.<br><br>Mae Pennod 6, 'Lleoedd Unigryw a Naturiol', yn egluro sut mae rhaid i'r system gynllunio ystyried amcanion Llywodraeth Cymru i warchod, diogelu, hyrwyddo a gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer llesiant cyffredinol cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Mae hefyd yn amlinellu'r polisïau cynllunio ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar asedau hanesyddol mewn categorïau penodol. Pwysleisir yr angen i |

| | | |
|---|---|---|
| | parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus. Mae'n cyfeirio at 'ragdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad' ac yn gosod 'rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol...' Mae'r rhagdybiaeth yn berthnasol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, lle bydd datblygiad yn ddymunol ar sail buddiant cyhoeddus. Mae PCC yn egluro hefyd y gall Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth fod o gymorth i swyddogaethau rheoli datblygu ac y dylai penderfyniadau dylunio mewn perthynas â chymeriad fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun. | benderfyniadau fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith cynnig ar arwyddocâd ased hanesyddol. Mae'n egluro bod y gwaith o warchod, cadw a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol.....wrth ddylunio cynigion newydd.<br><br>Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth ydy diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus. Mae'n cyfeirio at 'ragdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad' ac yn gosod 'rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol...'. Mae'r rhagdybiaeth yn berthnasol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, lle bydd datblygiad yn ddymunol ar sail buddiant cyhoeddus. Mae PCC yn egluro hefyd y gall Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth fod o gymorth i swyddogaethau rheoli datblygu ac y dylai penderfyniadau dylunio mewn perthynas â chymeriad fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun. |

Mae Nodyn Cyngor Technegol 24 (TAN 24) Amgylchedd Hanesyddol wrthi'n cael ei adolygu a bydd yn cael ei ail-gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i fod yn gydnaws â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Bydd Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) (2011) yn cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r diweddariad o TAN 24 sydd ar y gweill a'u gwneud yn gydnaws â Deddf 2023.